Y Comisiwn Etholiadol

# Telerau ac Amodau Grant i Sefydliad Dynodedig

## Refferendwm ar System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

## Cyflwyniad

1.1 Wrth ymarfer ei bwerau o dan adran 110 PPERA, mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno grant o £380,000 yr un ar gyfer y Refferendwm i bob Sefydliad Dynodedig.

1.2 Mae isadran 110(3) PPERA, yn datgan y gall y grantiau hyn gael eu dyrannu yn unol ag unrhyw amodau y mae'r Comisiwn yn ystyried sy'n briodol. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amodau sydd ynghlwm i unrhyw grant a ddyrannir.

1.3 Er dibenion y ddogfen hon:

Ystyr "Comisiwn" yw Y Comisiwn Etholiadol,

Ystyr "Sefydliad Dynodedig" yw person neu gorff a ddynodwyd gan y Comisiwn yn unol ag adran 108 PPERA mewn cysylltiad â'r Refferendwm;

Disgrifir ystyr "gwariant cymwys" ym mharagraff 3.2;

Ystyr "at ddibenion Refferendwm"' yw rhedeg neu reoli ymgyrch sydd â'r bwriad o hyrwyddo neu achosi canlyniad penodol mewn perthynas â'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn yn y Refferendwm;

Ystyr "PPERA" yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;

Ystyr "Refferendwm" yw'r Refferendwm o dan Ddeddf y System Bleidleisio Seneddol a'r Etholaethau 2011;

Ystyr "cyfnod y Refferendwm" yw'r cyfnod sy'n cychwyn ar 16 Chwefror 2011 ac sy'n gorffen ar 5 Mai 2011.

Y Comisiwn Etholiadol

## 2 Amodau Cyffredinol

2.1 Mae'n rhaid i Sefydliad Dynodedig gydymffurfio â darpariaethau 'hysbysiad o addasiad'106(5) PPERA.

2.2 Mae'n rhaid i Sefydliad Dynodedig gadw pob anfoneb, derbynneb, cofnodion ariannol a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'i grant am ddwy flynedd ar ôl cyfnod y Refferendwm.

## 3 Gwariant cymwys

3.1 Dim ond ar gyfer gwariant cymwys y gall Sefydliad Dynodedig ddefnyddio arian grant.

3.2 Ystyr 'gwariant cymwys ' ym mharagraff 3.1 yw gwariant a achoswyd, at ddibenion Refferendwm, i sefydlu, gweithredu neu staffio swyddfeydd, yn cynnwys;

(a) y gost o archebu,
- offer swyddfa;
- meddalwedd TG swyddfa cyffredinol, ond nid y gost o archebu meddalwedd ymgyrch arbenigol;
- caledwedd TG;
- nwyddau swyddfa cyffredinol, ond nid nwyddau sy'n cael eu defnyddio i gyfathrebu gyda phleidleiswyr mewn perthynas â materion sydd wedi'u rhestru o dan Atodlen 13 Rhan 1 PPERA;

(b) yn unol â pharagraff 3.3, y gost o rentu,
- swyddfeydd;
- offer swyddfa;
- caledwedd TG;

(c) y gost o gyflogi staff yn ystod cyfnod y Refferendwm, hyd at uchafswm o £33,000;

(ch) cost cyfleustodau yn ystod cyfnod y Refferendwm, yn cynnwys costau dŵr, nwy, trydan, gwasanaethau rhyngrwyd a ffôn (ond nid y gost o alwadau digymell i bleidleiswyr).

3.3 Pan fydd cytundeb rhentu yn para am gyfnod sy'n fwy hir na chyfnod y Refferendwm, dim ond yr 'elfen refferendwm' o gyfanswm cost y cytundeb sy'n cyfrif fel gwariant cymwys. Dylid darganfod yr 'elfen refferendwm' drwy ddefnyddio'r fformiwla canlynol;

$^{79}/_{y}$ x £z = £elfen refferendwm

os

79 yw'r nifer o ddiwrnodiau yng nghyfnod y Refferendwm;

y yw nifer y diwrnodiau yn y cyfnod rhentu;

z yw cyfanswm cost y cytundeb rhentu, yn cynnwys costau cychwyn a gorffen rhesymol.

3.4 Gall gwariant Sefydliad Dynodedig fod yn wariant cymwys hyd yn oed os daeth yr archeb, rhent, cyflogaeth neu gytundeb arall y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef i ben cyn cyfnod y Refferendwm.

# 4 Talu'r Grant

4.1 Bydd y Comisiwn yn talu arian grant o £114,000 (y 'rhandaliad cyntaf') i Sefydliad Dynodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Comisiwn benodi'r Sefydliad Dynodedig.

4.2 Yn unol â pharagraff 4.7, bydd y Comisiwn yn talu i'r Sefydliad Dynodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymaint o'r arian grant o £266,000 sy'n weddill ag y bydd y Sefydliad Dynodedig yn ei hawlio dan yr adran hon.

4.3 Gall Sefydliad Dynodedig gyflwyno mwy nag un hawliad am arian grant.

4.4 Mae'n rhaid i hawliad am arian grant:

(a) cael ei gyflwyno i'r Comisiwn, mewn ffurf yr ystyrir yn rhesymol gan y Comisiwn, cyn 19 Mai 2011;

(b) nodi gwerth yr arian grant sy'n cael ei hawlio; a

(c) chynnwys dogfennau ac eglurhad sy'n dangos i foddhad rhesymol y Comisiwn, bod y Sefydliad Dynodedig wedi achosi, neu y bydd yn achosi gwariant cymwys penodedig hyd at werth yr arian grant a hawliwyd.

4.5 Mae'n rhaid i'r hawliad cyntaf sy'n cael ei gyflwyno gan Sefydliad Dynodedig hefyd gynnwys:

(a) dogfennau ac eglurhad i ddangos i foddhad rhesymol y Comisiwn fod y Sefydliad Dynodedig wedi mynd i wariant neu fydd yn mynd i

wariant ar eitemau neu wasanathau penodol cymwys hyd at werth y rhandaliad cyntaf, llai £50,000; ac

(b) eglurhad ynghylch defnydd arfaethedig y rhan hynny o'r rhandaliad cyntaf nad sydd wedi ei ddelio ag ef o dan baragraff 4.5(a).

4.6 Mae'n bosibl na fydd gwariant cymwys a nodwyd mewn un hawliad wedi'i nodi mewn hawliad arall.

4.7 Ni fydd y Comisiwn yn talu arian grant i Sefydliad Dynodedig os yw'r Sefydliad Dynodedig yn torri amod materol sydd wedi'i osod yn y ddogfen hon.

# 5 Amodau i'w cwrdd ar ôl cyfnod y Refferendwm

5.1 Mae'n rhaid i Sefydliad Dynodedig gyflwyno dogfen i'r Comisiwn erbyn 19 Mai 2011, sy'n rhestru pob eitem a archebwyd am fwy na £200 mewn perthynas â'r hyn y mae'r Sefydliad Dynodedig wedi'u hawlio o dan adran 4, neu ddarparu tystiolaeth o daliad o dan baragraff 5.4(a) ('eitem restredig'). Dylai'r ddogfen hon fod mewn ffurf yr ystyrir yn rhesymol gan y Comisiwn.

5.2 Dylai Sefydliad Dynodedig, os gofynnir gan y Comisiwn a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drosglwyddo perchnogaeth o eitem restredig penodol i'r Comisiwn, a chaniatáu i'r Comisiwn i gael meddiant o'r eitem, ynghyd â phob gwarantiad, gwarant, a chofnodion cynnal a chadw. Bydd y Comisiwn yn talu'r gost o baratoi unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i drosglwyddo perchnogaeth, a'r gost o gasglu unrhyw eitem.

5.3 Ni chaiff y Comisiwn wneud cais am eitem restredig ar ôl y cyfnod o 14 diwrnod ar ôl cyflwyno'r ddogfen y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 5.1.

5.4 Mae'n rhaid i Sefydliad Dynodedig, erbyn 4 Gorffennaf 2011, ac yn y ffordd y nodwyd yn rhesymol gan y Comisiwn;

(a) gyflwyno derbynebau neu ddogfennau eraill i'r Comisiwn sy'n dangos pob taliad y defnyddiwyd arian grant ar eu cyfer (oni bai y cyflwynwyd tystiolaeth o daliadau o'r blaen i'r Comisiwn); a

(b) dychwelyd cymaint o'r arian grant i'r Comisiwn os nad yw'r Sefydliad Dynodedig wedi darparu tystiolaeth o daliad ar ei gyfer.

Y Comisiwn Etholiadol

# 6 Archwiliad

6.1 Gall y Comisiwn archwilio defnydd Sefydliad Dynodedig o arian grant. Er diben archwiliad, gall y Comisiwn ddefnyddio ei bwerau goruchwylio o dan Atodlen 19B PPERA.

# 7 Adfer

7.1 Pan fo Sefydliad Dynodedig yn torri amod materol sydd wedi'i osod yn y ddogfen hon, yn cynnwys:-

(a) yr amod a osodwyd ym mharagraff 3.1;

(b) yr amod a osodwyd ym mharagraff 5.2; neu

(c) yr amod a osodwyd ym mharagraff 5.4(b),

gall y Comisiwn ofyn i'r Sefydliad Dynodedig i ad-dalu'r holl grant neu ran ohono.

7.2 Mae'n rhaid i'r Sefydliad Dynodedig gydymffurfio â'r gofyn.